Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru

Ian Barrow
Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal
HMPPS Cymru a CAS
Tŷ Churchill
Caerdydd
Cymru
CF10 4HH

Martin Jones
HM Chief Inspector of Probation
1st Floor, Manchester Civil Justice Centre,
1 Bridge Street West,
Manchester
M3 3FX

12 Tachwedd 2025

Annwyl Martin,

**Adroddiadau Arolygiaeth Prawf ei Fawrhydi ar arolygu Uned Gyflawni Prawf (yr Uned Gyflawni) Gogledd Cymru, Rhanbarth Cymru - Medi 2025**

Diolch i chi am eich adroddiadau arolygu ar gyfer Uned Gyflawni Gogledd Cymru ble bu i chi wneud cyfanswm o bum argymhelliad.

O ran yr argymhellion, gallaf gadarnhau fod pob un wedi'i ystyried yn ofalus a, chyda chymorth y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, bydd Penaethiaid yr Uned Gyflawni'n sicrhau y cymerir camau i roi sylw iddynt, fel bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Mae canllawiau diwygiedig a ffurflenni cyfnewid gwybodaeth wedi'u cyflwyno i staff, eu datblygu ar y cyd gyda'r Heddlu a Gwasanaethau Plant, i safoni gofynion a sicrhau ymatebion amserol a manwl i gam-drin domestig ac ymchwiliadau diogelu.
- Mae archwiliadau "Cadw Pobl yn Ddiogel" wedi'u cyflwyno yn gonglfaen ein dull gweithredu Sicrwydd Haen 1, gan godi disgwyliadau o ansawdd ymarfer ar draws asesu, rheoli ac adolygu risg.
- Mae rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus wedi'i thargedu ac sy'n gysylltiedig â safonau Cofrestru Proffesiynol yn cael ei lansio, wedi'i llywio gan ddadansoddiad o anghenion hyfforddi, i ddatblygi chwilfrydedd proffesiynol a chryfhau gwaith asesu cynllunio ac asesu risg.
- Gwreiddio egwyddorion "Dechrau'n Gywir" trwy bwyntiau gwirio diwrnod 1, diwrnod 7 a diwrnod 28, sesiynau sefydlu llwybrau adsefydlu strwythuredig a gwell cydlyniant gyda'r ddalfa i wella cyflawniad i'r rhai sy'n gadael y carchar.

Er yn cydnabod bod llawer mwy o waith i'w wneud yn Uned Gyflawni Gogledd Cymru, rwyf wedi fy nghalonogi yr adroddwyd ar ganlyniadau cadarnhaol a nodaf yr isod:

- Mae Pennaeth y Gwasanaeth wedi sefydlu presenoldeb clir a chadarnhaol o ran arweinyddiaeth ar draws Gogledd Cymru, gyda phartneriaethau strategol datblygedig sy'n galluogi iddo gyflawni'n effeithiol ar y llinell flaen.

- Mae arweinyddion wedi llwyddo i hyrwyddo un hunaniaeth i'r Uned Gyflawni, gan greu ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb torfol sy'n sylfaen i wydnwch gweithredol.
- Mae Cynllun Gweithredu Anghymesuredd Gogledd Cymru, Darpariaeth yr Iaith Gymraeg a Strategaeth Cymunedau Gwledig yn dystiolaeth o sut mae'r Uned Gyflawni'n mynd y tu hwnt i ddyletswyddau statudol i gwrdd ag anghenion ei chymunedau, gan gyflwyno gwasanaethau'n ddwyieithog a hyrwyddo'r Gymraeg.
- Mae ymateb cydgysylltiedig yr Uned Gyflawni i bobl a gafodd eu rhyddhau o Garchar y Berwyn ar ôl cael eu hadalw am gyfnod penodol, yn dangos ei gallu i symud staff a chynnal cyflawniad yn ystod heriau gweithredol.

Rwy'n parhau i fod wedi ymrwymo i sicrhau cynnydd yn erbyn argymhellion yr Arolygiaeth Prawf a gallaf eich sicrhau, trwy fy swyddogaethau sicrwydd gweithredol a chefnogaeth y Grŵp Perfformiad, Sicrwydd a Risg, y byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn agos, yn unol â'ch canfyddiadau.

Yn gywir

Ian Barrow
Cyfarwyddwr Gweithredol Ardal HMPPS Wales

CC: Swyddfa Breifat
Kim Thornden-Edwards, Prif Swyddog Prawf yr HMPPS
Nicola Davies, Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, Cymru